‘

Cofnodion Cyfarfod o’r PWYLLGOR ARCHWILIO
a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda, ddydd Mercher, 24 Chwefror 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Rowland Rees-Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gareth Davies, Peter Davies MBE, Elizabeth Evans, Keith Evans a Matthew Woolfall Jones

Aelod Annibynnol: Yr Athro Ian Roffe YH

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ceredig Davies a’r Cynghorwyr Rhodri Evans, Gareth Lloyd a Ray Quant (Aelodau Cabinet)

SWYDDOGION YN BRESENNOL: Ms Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyfreithiol a Llywodraethu a’r Swyddog Monitro; Mr Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Polisi, Perfformiad a Diogelu’r Cyhoedd; Miss Lowri Edwards – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Mrs Meinir Ebbsworth – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaeth Ysgolion; Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd; Ms Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal, Gwasanaethau Plant; Mrs Amanda Roberts, Rheolwr Corfforaethol - Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu; Mr Rob Starr, Rheolwr Perfformiad ac Ymchwil; Mr Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter; Ms Hannah Rees- Swyddog Llywodraethu; Ms Stephanie Land, Archwilydd Cynorthwyol; Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9.30am – 12:45pm)

1 **Personol**
Estynnwyd cydymdeimlad â’r Athro I Roffe a’i deulu yn dilyn marwolaeth ei fam yng nghyfraith yn ddiweddar.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i’r Cynghorydd Elizabeth Evans yn dilyn ei phen-blwydd yn ddiweddar.

2 **Ymddiheuriadau**
Dim.

3 **Datgelu Buddiannau Personol / Buddiannau sy’n Rhagfarnu**
Dim.

4 **Gweithdrefn**
Codwyd pryderon ynghylch nifer yr adroddiadau oedd ar yr agenda a maint yr adroddiadau hynny. Awgrymwyd y byddai’n well cynnal cyfarfodydd yn fwy aml er mwyn mynd i’r afael â’r mater hwn. Cytunwyd y byddai’r Cadeirydd newydd yn ystyried y mater cyn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd hefyd y byddai’r holl gyfarfodydd yn dechrau am 9:30am yn hytrach na 10:00am. Dywedwyd bod y

cyfarfodydd wedi newid i 10:00am er mwyn rhoi digon o amser i ddatrys unrhyw anawsterau technegol posibl wrth i'r Aelodau a'r swyddogion ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein. Gan fod yr aelodau bellach yn gyfarwydd â'r drefn o ymuno â'r cyfarfodydd ar-lein, cytunwyd y gallai'r cyfarfodydd ddechrau am 9.30am.

5 **Y diweddaraf am Raglen Waith Archwilio Cymru**

Ystyriwyd yr adroddiad ynghylch y diweddaraf am Raglen Waith Archwilio Cymru. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd yr oedd Archwilio Cymru wedi'i wneud neu yn ei wneud o ran eu hastudiaethau. Roedd hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn briodol i ganfyddiadau Archwilio Cymru ac yn cytuno bod y camau wedi'u cwblhau er boddhad y Pwyllgor.

Dywedwyd bod yr adroddiadau a'r ardystiad canlynol wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf:-

1) Y diweddaraf ynghylch y cynnydd a wnaed

- Adroddiadau lleol a ddaeth i law:
  - Adroddiad Cynnydd Archwilio Cymru: Archwilio Cymru – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Sir Ceredigion 2020-21 (Atodiad 1)
  - Archwilio Cymru: Cyngor Sir Ceredigion – Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020: Cyngor Sir Ceredigion - Crynodeb Archwiliad Blynyddol 2020 | Audit Wales

• Adroddiadau cenedlaethol a ddaeth i law:
  - Llythyr oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Weithredwyr Cyrff y Sector Cyhoeddus ac Uwch Randdeiliaid yn Llywodraeth Cymru (dyddiedig 22/1/21)

- Tystysgrifau a ddaeth i law: dim

- Ffurflenni ymateb gan reolwyr sydd ar waith:
  - Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol (6/10/2020)
  - 'Gwella ein Perfformiad' - Mynd i'r Afael â Thwyll yng Nghymru (30/7/2020)
  - Adolygiad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (7/10/19)
  - Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb (23/7/2020)
  - Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion (11/9/19)
  - Cynnydd o ran rhoi'r Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar waith (21/11/19)
  - Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o ddylunio a gweithredu Model Gwasanaethau Integredig y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion (20/12/19)
  - Y Fenter Twyll Genedlaethol yng Nghymru 2018-20 (13/10/20)
  - System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (15/10/20)

2) Gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd

- Briffiau Prosiectau a ddaeth i law
    - Gwerth am Arian Taliadau Uniongyrchol (Atodiad 3)
    - Adolygiad Cynllunio – dim briff hyd yn hyn

Yn dilyn trafodaeth, CYTUNWYD i nodi'r adroddiadau a gyflwynwyd.

Codwyd pryderon ynghylch y pwysau a roddwyd gan Archwilio Cymru i gwblhau'r Datganiad Cyfrifon yn gynharach, o ystyried na chafwyd setliad y Cyngor tan fis Mawrth. Byddai'r sylwadau hyn yn cael eu trosglwyddo i Archwilio Cymru.

6 **Newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Ystyriwyd adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol ynghylch y Newidiadau i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor er mwyn darparu diweddariad am Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a'i effaith ar y Pwyllgor Archwilio. Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:-

- newidiadau ynghylch enw'r Pwyllgor, yr aelodaeth a'r Cadeirydd / Is-gadeirydd
- diweddariad ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad, a fyddai'n cael eu cymeradwyo gan y Cyngor
- argymhellion y Pwyllgor ar recriwtio aelodau lleyg (gan gynnwys nifer yr aelodau lleyg i'w recriwtio/maint y pwyllgor) a Chadeirydd y Pwyllgor, gan gynnwys cymeradwyo'r Disgrifiad o'r Rôl a'r Fanyleb Person drafft, a'r Llinell Amser Recriwtio arfaethedig.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-

(i) nodi cynnwys yr Adroddiad;

(ii) nodi'r newid yn yr enw, o'r 'Pwyllgor Archwilio' i'r 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio', ac argymell i'r Cyngor y dyddiad y dylai'r newid enw ddod i rym (yn absenoldeb unrhyw Reoliadau);

(iii) mai cyfanswm o 9 aelod (gan gynnwys 3 aelod lleyg annibynnol, a 6 o Gynghorwyr Sir) (Opsiwn 1) oedd yr opsiwn a ffefrid ynghylch maint y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,

(iv) nodi'r gofyniad ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i ddewis ei Gadeirydd a'i Is-gadeirydd, fel yr amlinellir yn yr Adroddiad;

(v) nodi'r gofynion o ran amseriad penodi aelodau lleyg annibynnol o'r Pwyllgor yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ac yna i'r Cyngor;

bod angen cael cadarnhad hefyd a oedd modd i Aelod Lleyg a fyddai'n camu i lawr o'r pwyllgor presennol, ddod yn aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,

(vi) recriwtio rhwng 2 a 4 ymgeisydd fel Aelodau Lleyg yn ystod y broses recriwtio;

(viii) nodi cyfansoddiad y Panel Creu Rhestr Fer a Dethol, a fyddai'n cael ei argymell i'r Cyngor; ynghyd â nodi y byddai aelod arall o'r Pwyllgor Archwilio yn dod yn aelod o'r Panel pe byddai unrhyw un o'r Cynghorwyr ar y Panel yn gorfod datgelu buddiant,

(ix) nodi'r dogfennau Disgrifiad Rôl a Manyleb Person ac unrhyw newidiadau angenrheidiol;
(x) nodi'r amserlen ar gyfer recriwtio; a
(xi) nodi rôl y Pwyllgor yn y dyfodol mewn perthynas â pherfformiad a delio â chwynion.

7 **Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol**

Ystyriwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol. Cyflwynwyd y ddwy ddogfen er mwyn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am yr adolygiad diweddaraf o Fframwaith Llywodraethu 2020-2021, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2020-2021 a Chod Llywodraethu Corfforaethol Lleol 2021-2022.
Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r canlynol:-
(i) Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2020-21; a
(ii) Cod Lleol Llywodraethu Corfforaethol Drafft 2021-2022

8 **Ymateb Corfforaethol i'r Ymgynghoriad ar y Canllawiau Statudol Drafft - Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau - Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Ystyriwyd yr Adroddiad ynghylch yr Ymateb Corfforaethol i'r Ymgynghoriad ar y Canllawiau Statudol Drafft - Perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau - Rhan 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn diweddaru'r Pwyllgor.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD
(i) nodi'r diweddariad a'r Ymateb Corfforaethol i'r Ymgynghoriad; a
(ii) nodi bod trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â sefydlu paneli Asesu.

Mynegodd yr Aelodau bryderon mai lefel arall o fiwrocratiaeth oedd hyn a bod y gwaith hwn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y swyddogion yn hytrach na chaniatáu i wasanaethau rheng flaen gael eu darparu.

9 **Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf – Chwarter 2**

Ystyriwyd Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf – Chwarter 2 a oedd wedi'i gyflwyno gerbron y Cabinet. Cyflwynwyd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiad ac i roi cyfle i'r Aelodau roi sylwadau.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad a pherfformiad ariannol llwyddiannus y gwasanaeth.

10 **Arolygiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru 2019/2020, Cyngor Sir Ceredigion**

Ystyriwyd Arolygiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru 2019/2020, Cyngor Sir Ceredigion. Roedd yr adroddiad hwn er gwybodaeth i'r Pwyllgor ar ôl iddo fod gerbron y Cabinet. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o gynnwys yr adroddiad ac i ddarparu cyfle i roi

sylwadau.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

11 **Llythyr Estyn, 19 Ionawr 2021 ar waith Cyngor Sir Ceredigion wrth gefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020**

Ystyriwyd Llythyr Estyn, dyddiedig 19 Ionawr 2021 ar waith Cyngor Sir Ceredigion wrth gefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2020. Roedd y llythyr wedi'i gyflwyno i'r Cabinet ar 02 Chwefror 2021.

Adroddwyd bod Estyn wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd rhithiol ym mis Tachwedd 2020 gyda swyddogion y Gwasanaeth Ysgolion a chyda sampl o 13 o ysgolion. Holwyd hefyd i bob ysgol gyfrannu at holiadur penodol. Bwriad y cyfarfodydd oedd dod i gasgliadau ar natur cefnogaeth Cyngor Sir Ceredigion i'w hysgolion yn ystod pandemig Covid-19.

CYTUNWYD i nodi'r llythyr a dderbyniwyd gan Estyn.

12 **Prisio Asedau**

Rhoddodd y Rheolwr Corfforaethol – Twf a Menter ddiweddariad ar lafar am y gwaith yr oedd y gwasanaeth wedi'i wneud o ran Prisio Asedau ers y cyfarfod diwethaf. Dywedwyd bod gweithgor mewnol wedi'i sefydlu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion neu gwestiynau ynglŷn â phrisio ynghyd ag ymholiadau allanol. Dywedodd ei fod yn hyderus y byddai'r dystiolaeth berthnasol yn cael ei darparu i Archwilio Cymru erbyn diwedd Mawrth 2021.

Cytunwyd y byddai'r Swyddog yn rhoi diweddariad yn y cyfarfod ym mis Medi ar ôl i Archwilio Cymru gyhoeddi Adroddiad ISA 260 ar Ddatganiad Cyfrifon 2020/21. Gofynnwyd am y diweddariad hwn er mwyn cael cadarnhad a oedd sylw dyladwy wedi'i roi i'r mater hwn o ran prisio asedau.

13 **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2020/21 – Chwarter 3 (1/9/2020 – 31/12/2020)**

Ystyriwyd Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2020/21 – Chwarter 3 (1/9/2020 – 31/12/2020). Cyflwynwyd yr adroddiad i sicrhau bod y Pwyllgor yn fodlon bod yr Adain Archwilio Mewnol yn ymgymryd â gwaith priodol a digonol i ddarparu sicrwydd realistig ar ddiwedd y flwyddyn gan ychwanegu gwerth a chynorthwyo'r Cyngor wrth gyflawni ei amcanion.

CYTUNWYD i nodi'r gwaith a wnaed a'r sefyllfa bresennol o ran yr Adain Archwilio Mewnol.

14 **Y Siarter Archwilio Mewnol**

Ystyriwyd y Siarter Archwilio Mewnol. Adroddwyd bod safon priodoledd 1000 Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i bob gweithgaredd archwilio mewnol gadw 'siarter archwilio mewnol'.

Dogfen ffurfiol oedd y siarter sy'n diffinio diben y gweithgaredd archwilio mewnol, ei awdurdod a'i gyfrifoldeb ynghyd â sefydlu rôl archwilio mewnol o fewn y sefydliad. Cafodd Siarter Archwilio Mewnol Cyngor Sir Ceredigion ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2013 ar yr un pryd â chyflwyno Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Roedd y Rheolwr Corfforaethol Archwilio Mewnol wedi adolygu'r siarter yn rheolaidd gan ei diweddaru yn ôl yr angen. Roedd pob fersiwn a ddiweddarwyd wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio. Roedd y fersiwn atodedig wedi'i diweddaru yn bennaf oherwydd y pandemig ac ail-strwythuro'r adain.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r siarter diweddaraf fel y'i cyflwynwyd.

15 **Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/22**

Ystyriwyd Strategaeth Archwilio Mewnol 2021/22. Adroddwyd bod Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, ynghyd â'r Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), yn mynnu y dylai Cynghorau gael Siarter Archwilio Mewnol ynghyd â Strategaeth a Chynlluniau Archwilio Blynyddol.
Cafodd y cynllun ei baratoi mewn modd a fyddai'n sicrhau bod sylw digonol yn cael ei roi i gefnogi'r farn flynyddol am effeithiolrwydd y systemau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol ar draws y Cyngor.

Byddai'r Strategaeth a'r Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig yn cefnogi'r Siarter Archwilio Mewnol drwy grynhoi'r meysydd gwaith y byddai'r Adain Archwilio Mewnol yn canolbwyntio arnynt yn ystod 2021/22 gan roi ystyriaeth i'r sefyllfa bresennol oherwydd y pandemig.

CYTUNWYD i gymeradwyo'r strategaeth ddiweddaraf fel y'i cyflwynwyd.

16 **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**

Ystyriwyd y Gofrestr Risgiau a gyflwynwyd i sicrhau bod y Cyngor yn nodi ac yn rheoli Risgiau Corfforaethol yn briodol ers y cyfarfod blaenorol. Rhoddir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio ynghylch Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Cyngor i roi gwybodaeth barhaus a sicrwydd bod risgiau'n parhau i gael eu rheoli. Mae hyn yn cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio yn eu rôl o ddarparu sicrwydd annibynnol i'r Cyngor a rheoli digonolrwydd y fframwaith rheoli risgiau. Er mis Mawrth 2020 pan ddaeth pandemig Covid-19 i Gymru, mae ymateb y Cyngor i'r achosion o Covid-19 wedi cael blaenoriaeth. Mae Risg R018 yn amlinellu manylion y risg a'r camau lliniaru sy'n angenrheidiol i leihau lledaeniad y clefyd yng Ngheredigion.

Mae'r chwarter diwethaf hefyd wedi gweld y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng yr UE a'r DU, sydd wedi lliniaru rhai o'r pryderon ac wedi lleihau risg Brexit. Cafodd yr holl risgiau eu hadolygu ac maent yn cynnwys sylwebaeth wedi'i diweddaru. Dyma'r newidiadau ers y cyfarfod diwethaf:-

- R004 Parhad Busnes – gostyngwyd sgôr gyffredinol y risg i adlewyrchu'r ffaith bod Cynllun Ymateb i Argyfwng y Cyngor wedi'i weithredu, adolygu / diweddaru cynlluniau parhad busnes pob gwasanaeth ychydig cyn y pandemig, strwythur rheoli'r Awdurdod Lleol a'n rôl yn y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth (Grŵp Cydlynu

Strategol Covid-19).

- R006 Rhaglen Gydol Oed a Llesiant – teitl y risg hon o'r blaen oedd "Trawsnewid Gofal Cymdeithasol", ond fe'i hailenwyd i adlewyrchu enw cywir y rhaglen. Mae'r Rhaglen wedi'i sefydlu a'i datblygu i drawsnewid y ffordd y bydd y Cyngor yn darparu gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac yn cyd-fynd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- R012 Newid Hinsawdd – mae sgôr y risg wedi cynyddu i adlewyrchu'r risg gyffredinol newydd o ran newid hinsawdd sy'n cynnwys rheoli carbon ac allyriadau carbon, llifogydd a rheoli ynni. Bydd gwaith pellach ar ddatblygu'r risg hon yn digwydd yn ystod y chwarter nesaf.

- R015 Cefnogi Busnesau Bwyd Lleol – mae sgôr y risg wedi cynyddu o 9 i 16. Mae'r staff yn canolbwyntio ar reoli Covid-19 yn eu gwaith o ddydd i ddydd, a dyma'r flaenoriaeth i'r Tîm Diogelu'r Cyhoedd ar hyn o bryd. Cafodd safonau bwyd ac arolygiadau bwyd eu hatal dros dro yn llwyr am hanner cyntaf eleni, yna eu hailgychwyn am ychydig, ond ers hynny maent wedi stopio eto ar wahân i fangreoedd risg uchel, neu lle mae cwynion neu wybodaeth y gallai safonau fod wedi gostwng.

- R016 Brexit – mae sgôr y risg wedi lleihau i adlewyrchu'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â gadael yr UE. Daethpwyd i Gytundeb Masnach a Chydweithrediad y DU/UE ar 24 Rhagfyr a gadarnhawyd gan Senedd y DU cyn trefniadau newydd gyda'r UE. Mae gadael yr UE gyda chytundeb wedi lleihau'r risg i Geredigion, er bod y Cytundeb Masnach a Chydweithrediad yn dal i achosi peth aflonyddwch. Mae'r Cyngor yn monitro effaith Brexit trwy is-grŵp o swyddogion, sy'n adrodd i'r Grŵp Arweiniol.

- Nid oes gan risgiau R003, R005, R009, R013, R017 a R018 ddim newidiadau i sgoriau risg ers yr adroddiad diwethaf, ond adolygwyd camau lliniaru a diweddarwyd y sylwebaeth.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD:-
(i) i nodi fersiwn ddiweddaraf y gofrestr risgiau fel y'i cyflwynwyd,
(ii) bod angen cynnwys risg ar y gofrestr ynglŷn â'r Ffermydd Sirol am fod rheoliadau newydd yn nodi bod angen gwneud gwelliannau sylweddol i bob fferm ynghyd ag ystyried goblygiadau'r gwelliannau hyn o ran cost;
(iii) i nodi bod y Swyddogion Arweiniol Corfforaethol perthnasol yn uno Risg R012 – Newid Hinsawdd a Risg R013 ar y gofrestr. Cododd yr Aelodau bryderon ynglŷn â'r llifogydd diweddar yn y sir ac effaith hyn ar y trigolion; adroddwyd bod 3 chynllun llifogydd ar waith yn y sir ar hyn o bryd i fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Serch hynny, yn ystod llifogydd, roedd y Cyngor hefyd yn dibynnu ar gymorth Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru;
(iv) bod yna bryder ynghylch busnesau ar y stryd fawr yn Aberystwyth am fod nifer ohonynt wedi cau neu ar fin cau oherwydd y pandemig. Dywedwyd bod busnesau wedi derbyn grantiau drwy'r gwasanaeth Cyllid i'w cynorthwyo nhw, a bod adroddiadau yn ddiweddar yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gostwng yr ardrethi busnes er mwyn eu helpu.

17 **Y Flaenraglen Waith**
CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith fel y'i cyflwynwyd.

18 **Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020**
CYTUNWYD i gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2020 yn rhai cywir.

Materion yn codi
Cofnod 16 (ii) Gofynnwyd a oedd y pwyllgor craffu perthnasol wedi cwrdd i ystyried R012 Newid Hinsawdd. Cafodd yr Aelodau wybod bod disgwyl i adroddiad fynd gerbron y Cabinet ac y byddai ar ôl hynny yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor Craffu er ystyriaeth.

19 **Unrhyw Fater Arall**
Bu i'r Aelodau groesawu fformat yr agenda ar y wefan gan ei bod yn haws symud o un adroddiad i'r llall.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl Aelodau a Swyddogion am eu gwaith a'u cefnogaeth yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar xxxx

CADEIRYDD:_____

DYDDIAD:_____